Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Associated Community Training Ltd
Ocean Park House
East Tyndall Street
Caerdydd
CF24 5GT

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Associated Community Training Ltd

Bu Associated Community Training Ltd (ACT) yn ddarparwr hyfforddiant dan berchnogaeth breifat, wedi'i leoli yng Nghaerdydd, gyda rhwydwaith o bartneriaid ledled Cymru. Yn Hydref 2016, daeth ACT yn is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro. Mae'n cadw ei frand ACT, ei hunaniaeth a'i strwythur rheoli, ond yn adrodd i gorff llywodraethol grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro.

Mae gan ACT a'i rwydwaith ystod eang o ddarpariaeth, gan gynnwys rhaglenni lefel mynediad, hyfforddeiaeth ymgysylltu a lefel 1, rhaglenni prentisiaethau sylfaen, prentisiaethau a phrentisiaethau uwch. Mae ganddo tua 4,000 o brentisiaid a 1,500 o ddysgwyr hyfforddeiaeth ar raglenni. Oddeutu £21.2m yw gwerth contract presennol Llywodraeth Cymru.

**Mae'r darparwr yn gweithio gyda'r partneriaid canlynol**

British Printing Industries Federation (BPIF)
Call of the Wild
Cardiff City Foundation
Coleg QS
Groundwork Cymru
Hyfforddiant Ceredigion Training (HCT)
Icon
Inspire
Llamau
Motivational Preparation Colege for Training (MPCT)
Portal Training
Talk Training
Tooth Fairies
Urdd Gobaith Cymru
XR Training
YHF Training

Ar hyn o bryd hefyd, mae ganddo niferoedd bach o ddysgwyr mewn contractau sy'n dirwyn i ben gyda'r Academi Trin Gwallt a Harddwch a Learn Direct.

**Mae'r darparwr a'i bartneriaid yn darparu rhaglenni hyfforddiant mewn:**

Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal
Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid
Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu
Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
Manwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid
Trin Gwallt a Harddwch
Lletygarwch ac Arlwyo
Hamdden, Teithio a Thwristiaeth
Y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi
Addysg a Hyfforddiant
Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith

## Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar fframweithiau prentisiaeth yn datblygu ac yn arddangos medrau galwedigaethol cadarn sy'n fuddiol iddynt yn eu gwaith. Gwnânt gysylltiadau defnyddiol a pherthnasol rhwng y gwaith theori y maent yn ei ddysgu a'u rolau swydd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr prentisiaeth yn gwneud cynnydd da, er bod ychydig yn gwneud cynnydd arafach neu'n cwblhau'u fframweithiau yn hwyrach na'r disgwyl. Dros gyfnod o dair blynedd, mae dysgwyr ar raglenni prentisiaeth, prentisiaeth sylfaen a phrentisiaeth uwch yn cwblhau'u fframweithiau yn llwyddiannus ar gyfraddau sy'n gyson â'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Mae llawer o ddysgwyr ar raglenni hyfforddeiaeth ymgysylltu yn datblygu medrau perthnasol ar gyfer dysgu a chyflogadwyedd yn dda. Mae hyfforddeiaethau yn dangos tuedd tair blynedd o gynnydd cadarnhaol uwch na'r cyfartaledd yn gyffredinol.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwella'u hyder, gwydnwch, hunanymwybyddiaeth a medrau cymdeithasol. Ar bob lefel, mae llawer yn gwella'u hagweddau at ddysgu neu'n adennill eu cymhelliant i astudio ar ôl seibiant o addysg.

Mae bron yr holl ymarferwyr yn cyflwyno sesiynau addysgu wedi'u cynllunio'n dda sy'n datblygu medrau theori, medrau galwedigaethol a medrau bywyd dysgwyr yn dda. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer eu dysgwyr, ni waeth beth yw eu mannau cychwyn.

Mae'r darparwr yn cynorthwyo dysgwyr yn dda drwy ystod o wasanaethau effeithiol, yn cynnwys swyddogion presenoldeb a lles, gwasanaeth cwnsela a chymorth dysgu yn y dosbarth.

Mae uwch arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cefnogol a chadarnhaol y mae cydweithwyr a phartneriaid ar draws y darparwr yn ei ddeall a'i rannu. Mae ethos y sefydliad yn un sy'n hyrwyddo lles dysgwyr a staff yn dda. Mae arweinwyr yn ymateb yn dda i flaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol, ac maent yn barod i ymgymryd â darpariaeth a gwaith heriol gyda phartneriaid newydd er budd dysgwyr.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Nodi a gwerthuso cymorth i ddysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, yn fwy effeithiol

A2 Cynyddu defnydd dysgwyr o'r Gymraeg fel medr yn y gweithle

A3 Gwella cyfleoedd i ddysgwyr ar raglenni hyfforddeiaeth i ymgymryd â phrofiad lleoliad gwaith priodol

A4 Mireinio hunanwerthuso a chynllunio gwelliant i adlewyrchu a mynd i'r afael yn fwy cywir ag amrywioldeb mewn perfformiad ar draws partneriaid

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Heb fod mewn categori gweithgarwch dilynol**

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar fframweithiau prentisiaeth yn datblygu ac yn arddangos medrau galwedigaethol cadarn sy'n fuddiol iddynt yn eu rolau swydd. Gwnânt gysylltiadau defnyddiol a pherthnasol rhwng y gwaith theori y maent yn ei ddysgu a'u rolau swydd, trwy drafodaethau gyda'u haseswyr, tasgau ymchwil ac mewn sesiynau i ffwrdd o'r gwaith. Er enghraifft, mae prentis lefel 3 sy'n gweithio mewn tai â chymorth ar gyfer pobl ifanc yn disgrifio sut mae theori ymlyniad yn egluro ymddygiad un o'r bobl ifanc sydd yn ei gofal. Mae prentis rheoli lefel 4 sy'n gweithio yn y GIG yn defnyddio offer digidol yn dda i'w helpu i reoli ei llwyth gwaith yn fwy effeithiol. Mae prentisiaid lefel 2 sy'n hyfforddi i weithio fel hyfforddwyr campfa yn cydnabod mathau gwahanol o gyrff a sut bydd hyn yn effeithio ar y cynlluniau hyfforddi y mae angen iddynt eu paratoi ar gyfer eu cleientiaid.

Mae llawer o ddysgwyr prentisiaeth yn glir ynghylch eu cynnydd ac yn defnyddio targedau perthnasol i ganolbwyntio'u hymdrechion er mwyn gwella eu gwaith yn dda. Mae ychydig ohonynt yn defnyddio cymwysiadau ffôn symudol i lanlwytho gwaith wedi'i asesu, derbyn adborth gan eu hasesydd ac i gael y wybodaeth ddiweddaraf am eu gwaith. Fodd bynnag, mae ychydig ohonynt yn gwneud cynnydd arafach neu'n cwblhau'u fframweithiau yn hwyrach na'r disgwyl.

Mae dysgwyr ar hyfforddeiaethau yn dechrau ar eu rhaglenni o ystod eang o fannau cychwyn, gyda rhwystrau sylweddol rhag dysgu yn aml. Mae llawer o ddysgwyr ar raglenni hyfforddeiaeth ymgysylltu yn goresgyn y rhwystrau hyn ac yn datblygu medrau perthnasol ar gyfer dysgu a chyflogadwyedd fel gweithio mewn tîm, defnyddio offer llaw a pharatoi CV.

Mae llawer o ddysgwyr ar raglenni hyfforddeiaeth lefel 1 yn datblygu medrau galwedigaethol cyflwyniadol yn gysylltiedig â'u maes dewis yn dda. Er enghraifft, mae dysgwyr gofal plant yn cynllunio gweithgareddau difyr ar gyfer plant meithrin yn ymwneud â'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, mae dysgwyr TG yn datblygu taenlenni cywir a chymwysiadau'r cyfryngau, ac mae dysgwyr sy'n paratoi i fynd i mewn i'r gwasanaethau milwrol a chyhoeddus yn gwella'u ffitrwydd corfforol a'u gallu i arwain yn dda. Er bod y rhan fwyaf o ddysgwyr ar raglenni hyfforddeiaeth yn samplu profiadau o ystod o feysydd galwedigaethol cyn dewis llwybr i fynd ymlaen arno, dim ond rhyw hanner sy'n cyflawni lleoliadau gwaith realistig fel rhan o'u rhaglenni.

Mae bron yr holl ddysgwyr yn cwblhau asesiad llythrennedd a rhifedd cychwynnol pecyn cymorth sgiliau hanfodol Cymru (WEST) ar ddechrau eu rhaglen. Mae llawer yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella, a gwnânt ddefnydd da o adnoddau WEST i ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflwyno'u gwaith yn dda, gyda sillafu, atalnodi a gramadeg sy'n briodol i lefel eu rhaglen. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos gwelliant yn ansawdd eu hysgrifennu wrth i'w rhaglen barhau. Mae lleiafrif o ddysgwyr ar brentisiaethau lefel 2 yn cwblhau cymwysterau sgiliau hanfodol Cymru ar lefelau uwch na gofynion eu fframwaith. Fodd bynnag, dim ond ychydig o ddysgwyr ar fframweithiau lefel 3 sy'n cyflawni medrau hanfodol ar lefel uwch.

Mae medrau digidol cadarn gan fwyafrif y dysgwyr ar draws y ddarpariaeth a defnyddiant ystod o offer digidol yn effeithiol fel rhan o'u hastudiaethau a'u gwaith. Er enghraifft, mae dysgwyr ar raglenni hyfforddeiaeth yn cydweithio'n dda ar-lein i greu gwaith prosiect ar y cyd.

Mae cyfran fach ond cynyddol o ddysgwyr Cymraeg eu hiaith gan y darparwr. O'r rhain, mae tua thraean ohonynt yn cwblhau rhai agweddau ar eu cymhwyster trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae llawer o'r dysgwyr hyn yn datblygu'u defnydd o'r Gymraeg yn y gweithleoedd yn effeithiol. Er enghraifft, mae prentis lefel 3 sy'n hyfforddi chwaraeon i bobl ifanc mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg yn datblygu'i hyder, ei eirfa dechnegol a'i ddefnydd o Gymraeg ysgrifenedig yn dda. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr sy'n siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'u Cymraeg yn y gweithle a lleoliadau hyfforddi yn ddigonol. At ei gilydd, nid oes digon o ddysgwyr yn datblygu'r Gymraeg fel medr yn y gweithle.

Mae'r data diweddaraf sydd wedi'i gyhoeddi ar gyfer 2017-2018 yn dangos bod dysgwyr yn cyflawni'u fframweithiau prentisiaeth sylfaen ar gyfradd sydd dri phwynt canran islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, prentisiaethau ar raddfa sydd ddau bwynt canran islaw, a phrentisiaethau uwch ar raddfa sy'n gyfwerth â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae tueddiadau tair blynedd ar bob un o'r tair lefel yn dangos patrwm o gyfraddau llwyddo sydd gerllaw'r cyfartaleddau cenedlaethol. Ar draws rhwydwaith y darparwr, mae cyfraddau llwyddo cyson gryf gan ychydig o bartneriaid. Fodd bynnag, ar ychydig o lwybrau, ac mewn ychydig o bartneriaid, mae tueddiadau mewn cyfraddau llwyddo dysgwyr yn dangos gwelliant anghyson ac maent islaw'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Mae'r data diweddaraf sydd wedi'i gyhoeddi yn dangos bod dysgwyr ar hyfforddeiaethau yn symud ymlaen at ddysgu lefel uwch neu gyflogaeth yn dda, ac ar gyfraddau sydd fymryn yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mae hyn yn adlewyrchu tuedd tair blynedd o ddilyniannau cadarnhaol uwchlaw'r cyfartaledd yn gyffredinol ar gyfer dysgwyr ar raglenni hyfforddeiaeth ymgysylltu a hyfforddeiaeth ar lefel 1.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae llawer o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sy'n dechrau o sylfaen isel iawn, yn gwella'u hyder, gwydnwch, hunanymwybyddiaeth a medrau cymdeithasol. Ar bob lefel, mae llawer yn gwella'u hagweddau at ddysgu neu'n adennill eu cymhelliant i astudio ar ôl seibiant o addysg. Maent yn datblygu hyder yn eu gallu galwedigaethol sy'n eu helpu i ddod o hyd i waith neu geisio cael dyrchafiad, neu i wella'u perfformiad a theimlo bod ganddynt fwy o reolaeth dros eu gwaith yn eu rôl bresennol.

Mae llawer o ddysgwyr prentisiaeth yn dod yn ddysgwyr annibynnol myfyriol sy'n gallu parhau â'u dysgu y tu allan i'w rhaglenni hyfforddi. Mae prentis cerbydau modur yn mwynhau'i waith, yn tynnu blwch gêr oddi wrth ei gilydd. Mae'n lawrlwytho cynlluniau a chyfarwyddiadau o'r rhyngrwyd ei hun. Mae'n ymfalchïo yn ei waith, yn gofalu am ei offer ac yn dyfalbarhau er gwaethaf anawsterau.

Mae llawer o ddysgwyr yn uniaethu'n dda â'u tiwtoriaid. Mewn sesiynau dosbarth, maent yn cydweithio'n dda i gynorthwyo'i gilydd yn eu dysgu. Maent yn ymateb yn dda i gwestiynau ac i drafodaethau grŵp, er nad yw ychydig o ddysgwyr yn cyfrannu digon mewn ychydig iawn o ddosbarthiadau.

Mae llawer o ddysgwyr hyfforddeiaeth sydd â rhwystrau difrifol rhag dysgu, fel problemau iechyd meddwl, anghenion dysgu ychwanegol a bywydau ansefydlog gartref yn talu sylw yn y dosbarth ac yn cyfranogi'n dda. Mae'r dysgwyr hyn yn llawn balchder wrth ddisgrifio'r gwaith y maent wedi'i wneud, er enghraifft dylunio poster ar ddiogelwch TG neu droseddau cyfeillio. Mae llawer o ddysgwyr hyfforddeiaeth yn cynyddu'u dealltwriaeth o'u hawliau a'u cyfrifoldebau yn y gwaith, a sut i ofalu am yr arian y maent yn ei ennill.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol perthnasol a gweithgareddau elusennol, ac yn deall manteision gwneud hynny, iddyn nhw eu hunain ac i'w cymunedau. Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau yn fuddiol i lwybrau galwedigaethol y dysgwyr, fel sesiynau trin gwallt a harddwch mewn cartref gofal, ond hefyd, trwy weithgareddau fel gwirfoddoli gyda banciau bwyd, gweithio gyda'r digartref, a chodi sbwriel, mae dysgwyr yn deall cynaliadwyedd amgylcheddol ac yn datblygu ymwybyddiaeth gymdeithasol.

Mae bron yr holl ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn yr ystafell ddosbarth ac yn eu gweithle. Teimlant eu bod yn cael gofal ac maent yn gwybod â phwy i gysylltu os oes angen iddynt godi pryderon. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu'u dealltwriaeth o ddinasyddiaeth a chydraddoldeb ac amrywiaeth. Maent yn deall beth sydd angen iddynt ei wneud i gadw'n ddiogel ar-lein, ac yn ymwybodol o risgiau radicaleiddio ac eithafiaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio ystod o adnoddau ar-lein arloesol a ddatblygwyd gan y darparwr i wella eu lles, ac maent yn gwybod sut i adrodd am unrhyw bryderon yn ochelgar.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud dewisiadau iach ynglŷn â deiet a lles corfforol, yn enwedig ar y rhaglen hyfforddeiaeth ac yn benodol mewn llwybrau fel chwaraeon, paratoi ar gyfer gwasanaethau milwrol, ac iechyd a harddwch.

Mewn hyfforddeiaethau, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynychu dosbarthiadau, lleoliadau gwaith a sesiynau blasu yn rheolaidd. Fodd bynnag, mewn ychydig o ddosbarthiadau, nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn mynychu'n ddigon rheolaidd nac yn cynnal lefel eu presenoldeb trwy gydol y diwrnod.

## Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae bron yr holl ymarferwyr yn cyflwyno sesiynau addysgu wedi'u cynllunio'n dda sy'n datblygu medrau theori, medrau galwedigaethol a medrau bywyd dysgwyr yn dda. Mae gwybodaeth bynciol a galwedigaethol ddiweddar addas gan y rhan fwyaf o ymarferwyr. Maent yn fedrus iawn wrth gynorthwyo dysgwyr i wneud cynnydd mewn sesiynau ymarferol a sesiynau theori. Er enghraifft, mae ymarferwyr ar raglen anatomeg a ffisioleg chwaraeon lefel 2 yn cynllunio i ddysgwyr ail-greu strwythur o sgerbwd gan ddefnyddio sbageti. O ganlyniad, mae dysgwyr yn meistroli enwau'r esgyrn yn gyflym a sut maent yn cysylltu.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn holi dysgwyr yn effeithiol, er enghraifft i fesur dealltwriaeth ac i ymestyn a datblygu meddwl dysgwyr. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, mae ymarferwyr yn gadael i un neu ddau o ddysgwyr gael y lle blaenaf mewn trafodaeth a sesiynau holi ac ateb, ac mae hynny'n atal dysgwyr eraill rhag cyfrannu.

Mae’r rhan fwyaf o ymarferwyr sy’n cyflwyno’r rhaglen hyfforddeiaeth ymgysylltu yn addasu’u haddysgu yn dda i fodloni anghenion dysgwyr. Er enghraifft, yn ystod sesiynau a addysgir mewn paratoi ar gyfer gwasanaeth milwrol, mae ymarferwyr yn cynllunio cydbwysedd da o weithgareddau theori a gweithgareddau ymarferol yn yr awyr agored i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cynnal eu diddordeb ac yn canolbwyntio. Ar y rhaglen cerbydau modur, mae tiwtor yn cyfnerthu sesiwn theori yn dda trwy gynllunio i ddysgwyr roi’r hyn maent wedi’i ddysgu ar waith drwy weithio gyda’i gilydd mewn grwpiau bach, gan ddod o hyd i namau a thynnu injans ceir oddi wrth ei gilydd.

Mae’r rhan fwyaf o ymarferwyr sy’n darparu’r rhaglen prentisiaeth yn datblygu medrau galwedigaethol lefel uwch dysgwyr yn dda. Er enghraifft, mae ymarferwyr ar y rhaglen rheoli busnes lefel 4 yn cynllunio cyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr ddatblygu ystod werthfawr o fedrau marchnata digidol lefel uchel.

Mae cydberthynas dda â’u dysgwyr gan bron bob un o’r ymarferwyr. Maent yn deall anghenion unigol ac amgylchiadau personol pob dysgwr unigol yn dda, ac yn gwneud defnydd da o hyn wrth gynllunio sesiynau a addysgir. Mae disgwyliadau uchel ar gyfer eu dysgwyr gan bron pob ymarferydd, ni waeth beth yw eu mannau cychwyn.

Mae bron pob un o’r aseswyr yn cynnal adolygiadau cynnydd rheolaidd a phwrpasol gyda’u dysgwyr er mwyn nodi targedau a chyrchnodau tymor byr. Mewn ychydig iawn o achosion, fodd bynnag, mae targedau’n rhy generig ac nid yw dysgwyr yn gwbl glir ynghylch beth sydd angen iddynt ei wneud. Mae’r rhan fwyaf o ymarferwyr yn olrhain a monitro cynnydd dysgwyr yn effeithiol gan ddefnyddio system electronig y darparwr. Mewn ychydig iawn o achosion, fodd bynnag, wrth gynnal adolygiadau cynnydd, nid yw aseswyr yn cynnwys cyflogwyr yn ddigon da, sy’n golygu nad ydynt yn cael gwybodaeth lawn am gynnydd eu cyflogeion.

Mae gan y darparwr berthnasoedd sefydledig a chryf ag ystod eang o gyflogwyr ac mae’n cyflwyno ystod eang o raglenni hyfforddi a phrofiadau dysgu sy’n cyfateb yn dda i ddyheadau dysgwyr ac anghenion cyflogwyr. Mae’r darparwr yn cynnig ystod eang o lwybrau galwedigaethol fel marchnata digidol, iechyd a gofal cymdeithasol, y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer busnes a choginio proffesiynol. Ar y rhan fwyaf o raglenni hyfforddi, mae dysgwyr yn cyfranogi mewn profiadau gwaith realistig neu efelychiadol. Fodd bynnag, ar y rhaglen hyfforddeiaeth lefel 1, dim ond tua hanner y dysgwyr sy’n elwa o gael profiad lleoliad gwaith go iawn.

Mae’r rhan fwyaf o ymarferwyr yn defnyddio asesiadau WEST yn effeithiol i nodi cryfderau dysgwyr a’r meysydd y mae angen iddynt eu gwella mewn medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol. Mewn ychydig iawn o achosion, fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn rhoi adborth digonol i ddysgwyr ar beth sydd angen iddynt ei wneud i wella’u llythrennedd neu rifedd, ac o ganlyniad, nid ydynt yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae’r darparwr wedi cydnabod yr angen i gynyddu ymwybyddiaeth o’r Gymraeg fel medr cyflogadwyedd, ac yn ddiweddar penododd swyddog datblygu’r Gymraeg yn amser llawn. Mae’r swyddog datblygu’r Gymraeg wedi creu ystod fuddiol o adnoddau dwyieithog deniadol a defnyddiol y mae ymarferwyr yn dechrau eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth, mewn adolygiadau ac yn y gweithle. Fodd

bynnag, nid oes digon o ddysgwyr yn ymgymryd ag asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd, nac yn gwella'u defnydd o'r Gymraeg fel medr yn y gweithle yn ddigon da.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae swyddogion presenoldeb a lles y darparwr yn darparu cymorth amserol a defnyddiol i ddysgwyr y mae perygl iddynt ymddieithrio. Maent yn effeithiol wrth helpu'r dysgwyr hyn i ddatblygu'u gwydnwch, ac yn darparu cymorth personol uniongyrchol a mynediad at wasanaethau cymorth pwrpasol, lle bo'n briodol. Mae panel staff arbenigol y darparwr o ran anghenion dysgu ychwanegol yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion dysgwyr wedi'u hatgyfeirio sy'n wynebu rhwystrau sylweddol rhag dysgu. Mae'r panel yn sicrhau bod y dysgwyr hyn yn cael cymorth gwerthfawr wedi'i deilwra. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth cwnsela yn darparu cymorth buddiol i ddysgwyr sy'n dioddef o orbryder a phroblemau iechyd meddwl. Mae'r darparwr yn gweithio'n dda gydag ystod o asiantaethau allanol i gynorthwyo dysgwyr sy'n wynebu heriau personol, ariannol, domestig a heriau iechyd.

Mae trefniadau'r darparwr yn addas ar gyfer adnabod dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt ar gyfer dysgu. Fodd bynnag, nid yw trefniadau monitro cynnydd ar gyfer y grwpiau hyn, gan gynnwys dysgwyr mwy abl a thalentog, wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r darparwr i nodi a gwerthuso effeithiolrwydd cymorth ar gyfer y grwpiau hyn o ddysgwyr.

Mae rhwydwaith y darparwr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn effeithiol gan ddefnyddio ystod o weithgareddau ac adnoddau. Mae dewisiadau bwyta'n iach ar gael i ddysgwyr ar draws y canolfannau dysgu. Darperir cymorth buddiol gan staff ar gyfer datblygiad personol dysgwyr. Er enghraifft, maent yn helpu datblygu hyder dysgwyr a'u gallu i amddiffyn eu hunain rhag bwlio neu aflonyddu. Mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn trafodaethau buddiol am radicaleiddio ac eithafiaeth. Mae'r tîm cyfleoedd yn cynorthwyo dysgwyr hyfforddeiaeth yn dda i ddatblygu'u medrau cyflogadwyedd. Gyda chymorth eu tiwtoriaid, mae ychydig o ddysgwyr yn cymryd rhan yn llwyddiannus mewn cystadlaethau medrau galwedigaethol gwerthfawr yn rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae rhaglen 'Parch / Respect' y darparwr yn effeithiol o ran datblygu gwerthfawrogiad dysgwyr o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r rhaglen yn llwyddo i annog dysgwyr i ddatblygu empathi ac i herio stereoteipiau. Hefyd, caiff dysgwyr gyfleoedd i fynychu dathliadau diwylliant, er enghraifft dathliadau diweddar y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae'r darparwr yn trefnu cyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a gweithgareddau codi arian. Er enghraifft, mae dysgwyr hyfforddeiaeth yn cyfweld â pherchnogion busnes lleol i ddeall y ffyrdd y maent yn rhyngweithio â'u cymunedau. Mae arferion effeithiol gan y darparwr ar waith i gynghori darpar ddysgwyr ynglŷn â'r llwybrau dysgu a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

Mae trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu ei ddysgwyr a'u gwarchod rhag radicaleiddio ac eithafiaeth yn briodol ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae uwch arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cefnogol a chadarnhaol y mae cydweithwyr a phartneriaid ar draws y darparwr yn ei ddeall a'i rannu. Mae arweinwyr ar bob lefel yn mabwysiadu dulliau hyfforddi gwerthfawr i godi perfformiad staff. O ganlyniad, mae ethos y sefydliad yn un sy'n hyrwyddo lles dysgwyr a staff yn dda.

Mae arweinwyr yn ymateb yn dda i flaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol, er enghraifft trwy gyflawni twf sylweddol yn y ddarpariaeth prentisiaethau uwch a phrentisiaethau yn ardaloedd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, neu trwy ddatblygu prentisiaethau newydd mewn dylunio dysgu digidol a chymorth gyda chymwysiadau digidol. Maent yn barod i ymgymryd â darpariaeth a gwaith heriol gyda phartneriaid newydd er budd dysgwyr. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr o'r grwpiau mwyaf difreintiedig, fel elusennau sy'n cynorthwyo pobl ifanc ddigartref, neu ar gyfer darpariaeth sydd heb ei datblygu'n ddigonol fel arall, er enghraifft trwy bartneriaeth ddatblygol gyda darparwr sy'n cynnig hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.

Fel is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Coleg Caerdydd a'r Fro, mae llywodraethwyr y coleg yn cyfrannu'n briodol at ddatblygu ACT drwy aelodaeth o'i fwrdd cynghori strategol. Mae gan y darparwr flaenoriaethau strategol perthnasol mewn ansawdd, effeithlonrwydd, twf a hapusrwydd. Mae'r rhain yn cysoni'n dda â blaenoriaethau'r coleg, ac fe'u datblygwyd ar y cyd rhwng uwch arweinwyr, partneriaid, y bwrdd cynghori strategol, ac mewn ymgynghoriad â chyflogeion drwy'r cyngor staff gweithredol.

Mae'r darparwr wedi datblygu system monitro ac adrodd y mae partneriaid yn ei defnyddio'n dda i edrych yn fanwl ar dueddiadau a pherfformiad meincnod a'u dadansoddi yn erbyn ei gilydd ac ACT. Mae ACT yn gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer cyflawniad ac mae dysgwyr yn cyflawni ar gyfraddau sy'n debyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol. Fodd bynnag, nid oes tuedd wella glir a chyson mewn cyfraddau llwyddo fframweithiau mewn prentisiaethau sylfaen mewn lleiafrif o lwybrau a phartneriaid.

Mae ACT yn defnyddio ystod eang o strategaethau gwella ansawdd yn briodol. Mae'r rhain yn cynnwys arolygon o lais y dysgwr a'r cyflogwr, archwiliadau ansawdd, gwiriadau diwydrwydd dyladwy, arsylwadau addysgu a dysgu, grwpiau arfer orau, adolygiadau thematig a chyfarfodydd ansawdd wyneb-yn-wyneb gyda phartneriaid ar draws y rhwydwaith.

Mae prosesau hunanwerthuso yn gwneud defnydd trwyadl o ddata i ddadansoddi tueddiadau a llywio cynllunio gwelliant. Mae uwch arweinwyr, partneriaid a llywodraethwyr bob un ohonynt yn chwarae rhan ddefnyddiol mewn prosesau hunanwerthuso a chymedroli. Mae rheolwyr ansawdd partner yn darparu cymorth effeithiol i helpu partneriaid i hunanwerthuso'u darpariaeth a chynnal arsylwadau. Fodd bynnag, mae cynllunio cyffredinol y darparwr ar gyfer hunanwerthuso a gwelliant yn rhy seiliedig ar berfformiad ychydig o ddarparwyr mawr ac nid yw'n adlewyrchu'r amrywiant mewn perfformiad yn llawn ar draws ei lu o bartneriaid eraill.

Mae ACT yn defnyddio adolygiadau o berfformiad staff, law yn llaw â gwybodaeth o'r broses ansawdd yn effeithiol i gynllunio ystod o weithgareddau datblygiad

proffesiynol perthnasol y trefnir ei bod ar gael i staff yn ACT a phartneriaid.  Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant arweinyddiaeth defnyddiol i reolwyr yn ACT, fel rhan o raglen i ddatblygu arddull arweinyddiaeth hyfforddi yn y sefydliad.

Mae’r darparwr yn monitro perfformiad ariannol a chydymffurfiaeth â chontractau yn dda.  Mae arweinwyr yn buddsoddi’n briodol i gefnogi ystod o ddatblygiadau, yn cynnwys: ailwampio canolfannau dysgu yng Nghaerdydd a Chaerffili, ariannu cynllun gwirfoddoli staff a buddsoddiad mewn seilwaith digidol.  Mae’r darparwr yn defnyddio adolygiadau o gontractau yn dda i ddyrannu cyllid ychwanegol i bartneriaid sydd â hanes da o gyflawni ansawdd uchel a darpariaeth effeithlon.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa farnau pedwar pwynt, sef:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwella** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/05/2019